

DULL BYWOLIAETHAU CYNALADWY

COMIC
RELIEF

SYLFAEN CYMUNEDOL CYFYNGEDIG

SylFaEN
CYMUNEDOL
CYFYNGEDIG

Hanes Bethan

“Roedd Bethan ar y Rhaglen Waith ond yn bell iawn o'r farchnad lafur. Roedd hi'n dioddef o **orbryder difrifol, agoraffobia**, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl eraill. Oherwydd y ffactorau hyn, nid oedd modd iddi fynychu apwyntiadau i weld ei chynghorydd ar y Rhaglen Waith. Gan nad oeddent yn cael gweithio y tu allan i'w swyddfeydd, roedd y cymorth y gellid ei gynnig iddi'n gyfyngedig.”

“Cafodd ei hanfon at brosiect Dull Bywoliaethau Cynladwy Maesgeirchen gan fod gorchmynion y ganolfan waith ac, o'i safbwynt hi, eu diffyg dealltwriaeth o'i anhwylder yn ei phoeni. Roedd hi'n dibynnu'n helaeth ar ei mam, ac **nid oedd yn gadael y tŷ ar ei phen ei hun**. Roedd digwyddiadau cymdeithasol o unrhyw fath yn brin, oni bai fod aelodau teulu'n dod i'r tŷ - doedd hi ddim yn rhyngweithio gydag unrhyw un ar wahân i'w mam. Roedd Bethan wedi gadael addysg ffurfiol yn 13 oed, ond roedd wedi cael C mewn TGAU Saesneg gyda thiwtor.

“Cymerodd **fisoedd o weithio gyda'n gilydd gyda Dull Bywoliaethau Cynladwy** cyn y gallai Bethan gychwyn gweld dyfodol mwy addawol. Buom yn edrych ar y posibilrwydd y gallai wneud gwaith gwirfoddol er mwyn meithrin ei hyder. Mewn amser, dechreuodd fynd o'r tŷ yn amlach, dechreuodd gael gwersi dreifio a mynd i archfarchnad hyd yn oed, **peithau na fyddai fyth wedi eu hystyried cyn hynny**. Roedd ganddi nod ac roedd yn breuddwydio am ennill mwy o gymwysterau. Ar ôl iddi ddechrau ymddiried yn of, roedd yn datgelu llawer mwy a chychwynnodd weld dyfodol iddi ei hun.”

“Yna daeth ergyd. Roedd Bethan a'i mam wedi bod yn byw yn yr un tŷ am flynyddoedd lawer, ond cawsant rybudd fod y perchennog am werthu'r eiddo yn annisgwyl. Daethant o hyd i dŷ arall i'w rentu yn yr un ardal ond nid oeddent yn gallu fforddio'r gost o symud eu heiddo personol. **Gan fod posibilrwydd y byddai'r ddwy yn ddigartref**, euthum at y cyngor a sefydliadau eraill er mwyn gweld a oedd unrhyw gymorth ar gael; nag oedd. Nid oedd ganddynt aelodau teulu a allai helpu. Roedd hyn yn cynyddu'r

pryder ac yn **gam enfawr yn ôl i Bethan**, gan ddod â'i OCD a'i phroblemau iechyd meddwl eraill yn ôl.”

“Helpais Bethan a'i mam gyda'r **costau symud a chostau eraill a orfodwyd arnynt am fod yn rhaid iddynt symud**. Helpais hefyd gyda'r holl waith papur angenrheidiol cyn ac ar ôl iddynt symud. Er gwaethaf hyn, roedd iechyd meddwl Bethan yn dal i gael ei effeithio gan y straen, ac fe'i hanfonwyd gan ei meddyg teulu at y tîm iechyd meddwl lleol i gael cymorth. Canolodd apwyntiadau a oedd wedi eu trefnu gyda mi ac ni chlywais ganddi am fisoedd lawer.”

“Pan oedd hi'n **barod i fy ngweld i eto**, roedd ganddi fwy o ffocws ac roedd wedi dechrau gwirfoddoli mewn siop elusen leol. Roedd eisiau rhoi'r cynllun gweithredu yr oeddem wedi dechrau gweithio arno ar waith. Yn ystod yr amser hwn, oherwydd **newidiadau i'r system fudd-daliadau**, roedd yn rhaid iddi fynychu apwyntiad gyda'i chynghorydd budd-daliadau. Mynychais er mwyn bod yn gefn iddi ac i'w helpu i gyfathrebu pe byddai ei meddwl yn mynd yn wag.”

“Roedd Bethan angen cymorth hefyd i **newid ei chyfenw**, gan mai hwnnw oedd ei chysylltiad olaf gyda'i thad a byddai ei newid yn gymorth mawr i'w lles meddyliol. Nid oedd unrhyw un a allai ei chynorthwyo gyda'r broses a'r ffoedd er mwyn gwneud hyn, ar wahân i'n prosiect ni.”

“Cyfeiriais Bethan at y gwasanaeth gyrfaoedd er mwyn cael cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â'i thargedau. Aeth ati ei hun wedi hynny i gysylltu â chyflogwyr lleol er mwyn cael gwybodaeth ac er mwyn gwirfoddoli. Gwelodd swydd Cynorthwyr Personol a Derbynydd mewn cwmni cyfrifdydiaeth lleol a ffoniodd iddynt i ofyn a fyddai hi'n cael ei hystyried heb gymwysterau na phrofiad perthnasol. **Er mawr syndod iddi, cafodd gynnig cyfweiliad.**”

Helpodd y prosiect i ariannu dillad ar gyfer y cyfweiliad a threuliasom amser yn mynd dros sgiliau cyfweiliad. Aeth i'r cyfweiliad, cafodd gynnig y swydd ac fe'i derbyniodd. Mae'r swydd yn un llawn amser ac yn mynd yn dda hyd yn hyn. **Nid yw'n hawlio budd-daliadau ac mae hi'n ennill ychydig llai na £13,000 y flwyddyn.**”

Cost uned cefnogi Bethan gyda phrosiect Dull Bywoliaethau Cynladwy ym Maesgeirchen am dair blynedd oedd £6,524.41.*

Ar yr un pryd, cynhyrchodd y gefnogaeth a gafodd Bethan gan y prosiect **werth cyllidol crynswth** (arbedion nominal i'r wladwriaeth) o £12,792.00 drwy ei helpu oddi ar fudd-daliadau ac i waith llawn amser, drwy ei chefnogi i beidio bod angen gwasanaethau iechyd meddwl a'i helpu hi a'i mam i ddod o hyd i dŷ newydd fel nad oedd angen cofrestru'n ddi-waith.

Cynhyrchodd cymorth y prosiect hefyd **fudd economaidd crynswth** o £5,364.40 drwy ei ymyrraeth. Yn gyntaf oherwydd ei swydd wirfoddol cyn dod o hyd i waith, ac yna drwy'r gallu ychwanegol i wario oherwydd ei chyflog.

Yn olaf, cynhyrchodd yr ymyrraeth hefyd **fudd cymdeithasol crynswth** o £82,571.50. Crëwyd hyn drwy'r cynnydd yn hyder Bethan y bu'r prosiect yn gymorth i'w gefnogi a'i theimladau newydd o reolaeth dros ei bywyd, ynghyd â chael gwared â'i hiselder a'i gorbryder, yn ogystal â'r hwb penodol i'w lles a ddaeth yn sgil dod o hyd i gyflogaeth llawn amser.

Ni chrëwyd yr holl werth hwn gan brosiect DBC yn unig. Rhaid ystyried gwaith sefydliadau eraill, ynghyd â hyd y buddion deilliadol, costau'r cyfle i Bethan gymryd rhan, effeithiau amnewid ac ati.

Gan ystyried hyn i gyd, a phriodoli dim ond llai na hanner cyfanswm y gwerth a grëwyd i brosiect DBC Maesgeirchen o ganlyniad, **gwerth net cyfunol** y cymorth a roddwyd i Bethan oedd £38,481.54 ar draws pob canlyniad. Mae hyn yn gyfwerth â **chymhareb gwerth net** o 6.62:1. Mewn geiriau eraill, yn achos Bethan, cynhyrchodd y prosiect £6.62 o werth cyllid, economaidd a chymdeithasol am bob £1 a fuddsoddwyd.

* Pob ffigwr ym mhriariau 2015/16. I gael mwy o wybodaeth am y diffiniadau a'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth achos hwn, gweler L. Quinn, 'Building Livelihoods and Strengthening Communities in Wales: Value Analysis' (1 Ebrill 2016), ar gael ar <https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/final-evaluation-building-livelihoods-and-strengthening-communities-in-wales-pr-615933>

Hanes Gethin

“Cyfeiriwyd Gethin at y prosiect gan ei fod yn cael ei diwtora gartref, ond nid oedd yn dangos unrhyw ddi-ddordeb. Roedd yn 16 oed **ond anaml iawn yr oedd yn gadael ei ystafell wely ac nid oedd yn gadael y tŷ o gwbl**. Prin yr oedd yn cyfathrebu ag aelodau o'i deulu ei hun, heb sôn am bobl ddieithr. Roedd yn amlwg bod gan ei fam broblemau cysylltiedig â'i pherthnasau a'i hiechyd ei hun. Roedd yn teimlo bod asiantaethau a gweithwyr eraill gwneud cam â Gethin o oed ysgol gynradd ymlaen.”

“Eglurais nod prosiect DBC Maesgeirchen ac mor bwysig oedd hi i Gethin weld budd gweithio gyda mi. **Mynychais gyfarfodydd panel gyda'r awdurdodau addysg a'i fam** a chytunwyd y byddwn yn ei gynorthwyo i gael profiad gwaith a'i annog i fynd allan o'r tŷ yn amlach. Roedd yn amlwg bod gan Gethin rai problemau symudedd ac na allai **gau careiau ei esgidiau hyd yn oed**, ond nid oedd yn gymwys i gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd ei ddiety na'i lendid personol yn dda. Nid oedd wedi cael unrhyw brofiadau bywyd ar wahân i'r byd yr oedd yn ei greu ar ei gyfrifiadur, yr unig beth yr oedd yn ei drafod yn fywiog. Treuliais ryw faint o amser yn **defnyddio'r DBC** i weithio gyda'i fam ar fod yn rhiant.”

“Mewn amser, a chyda dyfalbarhad, cychwynnodd ei fam wneud llai iddo a **dechreuodd Gethin gyfathrebu fwy a mwy**. Trefnais gyfarfod gyda chwmni lleol er mwyn iddo ddeall yr amrywiol yrfaeoddd posibl o fewn y maes cyfrifiaduron. Gwnaeth rhywfaint o brofiad gwaith TG a drefnais ar ei gyfer hefyd. Cawsom drafodaeth am y coleg a'r posibilrwydd o addysg bellach, a gweithiais gyda'r gwasanaeth gyrfaoedd er mwyn ei baratoi ar gyfer yr hyn y byddai angen iddo ei wneud.”

“O ganlyniad, cafodd **ddiagnosis o ddysgraffia, dyspraxia ac anawsterau llythrennedd**. Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn er mwyn helpu i sefydlu cynllun sgiliau a dysgu. Euthum ag ef i gyfweiliad yn y coleg a chafodd gynnyg lle. Rhoddais gymorth i Gethin gyda'i gostau teithio am y tymor cyntaf a helpais ei fam i lenwi'r ffurflen er mwyn gwneud cais am y Lwfans Cynhaliath Addysg.”

“Gan gofio **nad oedd wedi bod mewn addysg nac unrhyw ffurf ar leoliad cymdeithasol ers blynyddoedd** ar wahân i'r profiad gwaith TG y rhoddais gymorth iddo i'w wneud, byddai'n cymryd cam mawr yn mynd i'r coleg, ac roeddem yn disgwyl y byddai rhai trafferthion ar y cychwyn. Yn y diwedd, ar ôl dau dymor, bu'n rhaid cynnal cyfarfod oherwydd y problemau cysylltiedig â phresenoldeb. Roedd yn amlwg na fyddai modd i Gethin gwblhau'r cwrs. Roedd yn awyddus i wella ei fywyd ond roedd yn cael trafferth yn gweithredu ar hynny.”

“**Elfen ganolog o Ddull Bywoliaethau Cynladwy** yw bod gan bawb rinwedd neu sgil y gellir ei datblygu, pa mor ddi-nod bynnag y gallai ymddangos iddynt hwy eu hunain neu i eraill. Er ei bod yn ymddangos ei fod yn ôl yn ei ystafell lle'r oedd wedi cychwyn, trefnais gymorth un i un i Gethin er mwyn iddo allu adeiladu ei gyfrifiadur ei hun. Roedd hyn yn fodd o gynnal y sgiliau yr oedd wedi eu dysgu. Roedd hefyd yn gyfle i weld y posibiladau oedd yn agored iddo pe byddai'n mynd yn ôl i'f yd addysg. Yn bennaf oll, roedd yn fodd i mi ddangos iddo mai ef ei hun, gyda chymorth DBC, **oedd yn gyfrifol am newid ei fywyd**, ac mai dim ond ef allai wneud hynny.”

“Roedd ei fam angen gweld hefyd nad oedd yn helpu materion drwy adael i Gethin dynnu'n ôl o sefyllfaoedd pan oedd yn teimlo fel gwneud hynny. **Drwy'r Dull Bywoliaethau Cynladwy**, roedd modd i mi ddangos i'r ddau bod y diymadferthedd hwn yr oedd wedi ei ddysgu yn rhwystr. O ganlyniad, **ailymgeisiodd Gethin am le yn y coleg**, gan drin y broses i gyd ei hun. Cytunodd y coleg i roi cyfnod prawf iddo am lai o ddyddiau; pe byddai ei gyfradd presenoldeb yn 100 y cant, byddent yn gadael iddo wneud y nifer llawn o ddyddiau yr oedd eu hangen er mwyn cwblhau'r cwrs. **Ni cholodd yr un diwrnod**. Mae Gethin bellach yn astudio bob diwrnod er mwyn ennill ei gymhwyster TG ac mae'n **barod i wneud unrhyw beth er mwyn cyrraedd ei nod**.”

Cost uned cefnogi Gethin gyda phrosiect Dull Bywoliaethau Cynladwy ym Maesgeirchen am ddwy flynedd oedd £4,349.61. *

Y math cyntaf o werth a gynhyrchwyd gan y cymorth a roddodd y prosiect i Gethin oedd **gwerth cyllidol crynswth** (arbedion nominal i'r wladwriaeth) o £3,077.00. Crëwyd hyn am iddo gael cymorth i fynd o fod yn NEET (dim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) i addysg llawn amser. Mae'r gwerth cyllidol hwn yn cynnwys y costau ychwanegol a grëwyd yn sgil y budd-dal a hawliwyd (Lwfans Cynhaliath Addysg) yn sgil y cymorth.

Nid arweiniodd cymorth y grŵp at greu unrhyw **werth economaidd crynswth** i Gethin yn ystod oes y prosiect. Ni chrëwyd unrhyw werth gan ei leoliad profiad gwaith, a dim ond cam cyntaf oedd hwn tuag at y buddion economaidd a fyddai'n deillio o wella ei gymwysterau.

Fodd bynnag, cynhyrchodd ymyrraeth y prosiect **fudd cymdeithasol crynswth** o £14,152.00 drwy'r hwb anferth a roddwyd i hyder Gethin. Golygodd y newid hwn hefyd fod modd iddo gynllunio ei fywyd yn well a'i fod yn teimlo bod ganddo ddyfodol mwy sicr yn ariannol, yn ogystal â pheri ei fod yn fwy medrus a gwybodus yn gyffredinol.

Ni chrëwyd yr holl werth hwn gan brosiect DBC yn unig. Rhaid ystyried gwaith sefydliadau eraill, ynghyd â hyd y canlyniadau deilliadol, costau'r cyfle i Gethin gymryd rhan, effeithiau amnewid ac ati.

Gan ystyried hyn i gyd, a phriodoli dim ond llai na hanner cyfanswm y gwerth a grëwyd i brosiect DBC Maesgeirchen o ganlyniad, **gwerth net cyfunol** y cymorth a roddwyd i Gethin oedd £9,475.95 ar draws pob canlyniad. Mae hyn yn gyfwerth â **chymhareb gwerth net** o 2.03:1. Mewn geiriau eraill, yn achos Gethin, cynhyrchodd y prosiect £2.03 o werth cyllid, economaidd a chymdeithasol am bob £1 a fuddsoddiwyd.

